Cyrsiau Hyfforddi Modurol

colegsirgâr colegceredigion

Mae Canolfan Hyfforddi Fodurol Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn cynnig gwasanaeth teilwredig, pwrpasol ac ymatebol i ddiwallu anghenion diwydiant atgyweirio cerbydau modern ac effeithlon. **Cynhelir ein cyrsiau'n rheolaidd ar Gampws Pibwrlwyd, Caerfyrddin a Champws Aberteifi, Ceredigion. Cysylltwch â ni ar gyfer dyddiadau.**

Cwrs	Hyd	Cost
Cwrs Profwyr MOT (Dosbarthiadau 4 a 7)	4.5 diwrnod	£450
Cymhwyster i ddod yn Brofwr MOT. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod â chymhwyster cerbydau modur Lefel 3 neu gyfwerth.		
Rheolaeth Canolfan Brofi MOT	2 Ddiwrnod	£325
Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer y rheiny sy'n ystyried agor gorsaf MOT neu gymryd swydd reoli mewn gorsaf MOT.		
Asesiad Achrededig Technegydd Cerbydau Modur (VTAA)	2 Noswaith	£450
Mae'r cwrs hwn ar gyfer technegwyr sydd heb ennill cymhwyster cerbydau modur Lefel 3. Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei dderbyn ar gyfer y cwrs Profwyr MOT.		
Hybrid Lefel 2	2 Ddiwrnod	£395
Yn addas ar gyfer technegwyr sy'n gweithio ar gerbydau Hybrid/Trydan, mae'r cwrs yn helpu i roi gwybodaeth i unigolion am sut i wneud cerbydau Hybrid/Trydan yn ddiogel i weithio arnynt.		
Hybrid Lefel 3	3 Diwrnod (2 ddiwrnod Lefel 2 + 1 diwrnod)	£595
Cwrs ar gyfer technegwyr sydd wedi ennill y cymhwyster Lefel 2 Hybrid, sydd eisiau gwella eu gwybodaeth a dysgu sut i atgyweirio a newid systemau ar gerbyd Hybrid/Trydan.		
Trin Oerydd Aer	3 Noswaith	£275
Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer Technegwyr sydd eisiau cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer gweithio ar systemau aerdymheru mewn cerbydau.		

BDI Datblygu Busnes ac Arloesi

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Datblygu Busnes ac Arloesi ar
01554 748344 BDI@colegsirgar.ac.uk